ARIANNU HEDDLU GOGLEDD CYMRU / FUNDING NORTH WALES POLICE 2018-2019

Ym mis Mai 2016 cefais fy ethol yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd dros Ogledd Cymru. Fy ngwaith i yw sicrhau bod pobl Gogledd Cymru yn cael y gwasanaeth heddlu gorau posibl a bod pob dinesydd yn teimlo'n ddiogel, yn eu cartrefi ac ar ein strydoedd.

Un o fy mhrif gyfrifoldebau yw gosod y praesept blynyddol, sef y rhan honno o gyllideb yr heddlu sy'n dod o drethi lleol. Mae cyfanswm y gyllideb fydd ar gael i Heddlu Gogledd Cymru er mwyn plismona Gogledd Cymru yn dibynnu ar lefel y praesept. Mae ansawdd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwaith yr heddlu yng Ngogledd Cymru yn dibynnu'n helaeth ar lefel y praesept - yn wir mae'r praesept yn hollbwysig i alluogi'r Heddlu i ofalu bod Gogledd Cymru yn parhau i fod yn lle diogel i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef.

Yr wyf yn hynod o falch o'r hyn a gyflawnwyd gan fy swyddfa, Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid yn ystod fy amser fel Comisiynydd. Rhai o'r pethau a gyflawnwyd yw:

- Cynllun **brysbennu iechyd meddwl** wedi ei redeg ar y cyd ar strydoedd Wrecsam.
- Caniatâd i adeiladu pencadlys rhanbarthol newydd gan **gynnwys dalfa** yn Llai, a gorsaf yng nghanol y dref yn Wrecsam.
- Cyflogi gweithiwr achos iechyd meddwl o fewn y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr er mwyn bod o gymorth i ddioddefwyr sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl a gweithiwr achos penodol i weithio gyda dioddefwyr **Caethwasiaeth Fodern**.
- Mae **Cronfa'r Comisiynydd** wedi noddi sawl prosiect a sefydliad i allu ymdrin â throsedd ac anhrefn ac i gefnogi dioddefwyr. Rhoddir dros £2miliwn yn flynyddol i amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau.
- Yr ydym wedi cefnogi a rhoi **cymorth i 14,168 o ddioddefwyr** (1,864 ohonynt yn blant neu'n bobl ifanc) sydd wedi dod i gysylltiad â'r **Ganolfan Cymorth Dioddefwyr**.
- Ffurfiwyd **tîm Ymyrraeth Gynna**r yn Sir y Fflint i weithio gyda'r rhai hynny sy'n cynhyrchu'r galw mwyaf o ran bygythiad, niwed a risg.
- Yr ydym wedi buddsoddi mewn **1,350 o ddyfeisiadau technoleg symudol** i alluogi swyddogion i chwilio am bobl, cerbydau a chyfeiriadau tra maent ar batrôl.

Mae cryn ansicrwydd faint fydd Gogledd Cymru'n ei dderbyn drwy fformiwla ariannu'r heddlu yn 2019/20 ac ar ôl hynny. Ar adeg o gyni, mae'n beth doeth i gorff cyhoeddus gynyddu'r treth y cyngor a chynyddu'r gronfa wrth gefn. Ond er imi gael ar ddeall wrth ymgynghori fod llawer o bobl yng Ngogledd Cymru o blaid cynyddu treth y cyngor o 4% neu ragor, rhaid sylweddoli ar yr un pryd y byddai rhai pobl yn ei chael yn anodd talu ychydig ychwaneg, hyd yn oed. Mae fy nghronfa wrth gefn mewn cyflwr sefydlog ac iach ac yn wyneb hynny rwyf wedi penderfynu cynyddu treth y cyngor er mwyn ariannu gwariant 2018/19 yn unig, gan ddelio ag effaith gostyngiad pellach yng ngrant y llywodraeth pan, neu os, gwelwn hyn yn digwydd.

Mae'r Prif Gwnstabl yn fy sicrhau y bydd cynnydd o 3.58% yn ei alluogi i gyflawni fy Nghynllun Heddlu a Throsedd, a gyhoeddwyd yn 2017, yn effeithiol.

Arfon Jones
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

I was elected to be the Police and Crime Commissioner for North Wales in May 2016. My job is to make sure that the people of North Wales have the best police service possible and that citizens feel safe both at home and on our streets.

One of my main responsibilities is to set the annual precept which is that part of the police budget which is raised from local taxes. The level of the precept determines the total budget available to North Wales Police for policing North Wales. The precept's importance to the quality, effectiveness and efficiency of policing North Wales is vital as it is to the ability of the Force to keep north Wales a safe place to live, work and visit.

I am extremely proud of the work and achievements of my office, North Wales Police and our partners during my time in office. Some of the things we have achieved are:

- A jointly operated **mental health street triage** in Wrexham.
- The approval to build a new divisional headquarters and **custody suite** in Llay, and town centre police station in Wrexham.
- The employment of a mental health caseworker within the Victim Help Centre to help victims experiencing mental health problems and a dedicated caseworker to support victims of **Modern Day Slavery**.
- **The Commissioner's Fund** provides funding to numerous projects and organisations to help tackle crime and disorder and to support victims. Just over £2m is given each year to a wide variety of service providers.
- We engaged and **helped 14,168 victims** (1,864 of whom were children and young people) who made contact with the **Victims' Help Centre**.
- A joint **Early Intervention Team** was formed in Flintshire to work with those who generate the highest demand with regard to threat, harm and risk.
- We have invested in **1,350 mobile technology devices** which have been deployed to enable officers to search for people, vehicles and addresses while on patrol.

There is considerable uncertainty over what North Wales Police will receive from the police funding formula in 2019/20 and beyond. In times of austerity, the prudent course for a public body would be to increase council tax and increase reserves. However, this needs to be balanced with the recognition that, although many North Wales residents responded to my consultation in support of increasing council tax by 4% or more, there are others who may find it difficult to find even a small amount of additional money. My reserves are in a stable and healthy position, and therefore I have decided to increase council tax only in order to fund 2018/19 expenditure, and to deal with the effect of further reductions in government grant if and when this should occur.

The Chief Constable assures me that an increase of 3.58% enables him to effectively deliver against my Police and Crime Plan, which was published in 2017.

Arfon Jones
North Wales Police and
Crime Commissioner

Yn y daflen hon cewch ddadansoddiad sy'n dangos faint o'ch treth cyngor sy'n cael ei wario ar blismona a nodir yn fras ble mae eich arian yn mynd. Am wybodaeth bellach ynglŷn â chyllideb yr heddlu, ewch i'm gwefan: www.nwpcc.cymru

BETH YW EICH BARN CHI?

Mae'r Comisiynydd yn atebol i'r bobl ledled Gogledd Cymru ac mae bob amser yn awyddus i glywed barn pawb am faterion yn gysylltiedig â'r heddlu a throsedd.

Os hoffech ddweud eich barn wrth y Comisiynydd, ffoniwch **01492 805486** neu e-bostiwch: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk.**

Gallwch hefyd fynd i'n gwefan: **www.nwpcc.cymru**

SUT I GYSYLLTU Â HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Gallwch gysylltu â heddweision drwy wefan Heddlu Gogledd Cymru: **www.north-wales.police.uk**

Neu gallwch ffonio'r rhif difrys **101** neu **0300 330 0101**. Mewn argyfwng yn unig, ffoniwch **999**

PRINT BRAS

Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras. I gael copi am ddim, ffoniwch **01492 805486**.

This leaflet gives a breakdown of how much of your council tax is spent on policing and an indication of where your money goes. For more information about the police budget, please visit my website: www.nwpcc.cymru

WHAT DO YOU THINK?

The Commissioner is accountable to people across North Wales and is always eager to hear what they think about police and crime matters.

If you want to share your views with the Commissioner, please contact **01492 805486** or email **OPCC@nthwales.pnn.police.uk.**

Alternatively, visit our website: **www.nwpcc.cymru**

HOW TO CONTACT NORTH WALES POLICE

You can contact officers through the North Wales Police website: **www.north-wales.police.uk**

Alternatively, you can ring the non-emergency number **101** or **0300 330 0101**. For emergencies only, call **999**.

LARGE PRINT

This leaflet is available in large print. For a free copy, simply call **01492 805486**.

Ffôn / Tel: 01492 805486
@NorthWalesPCC
Ebost / E.mail:
OPCC@nthwales.pnn.police.uk

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru **diogelach**
NORTH WALES POLICE
A **safer** North Wales

PAN FYDD YN LLAI PWYSIG NA 999
101
WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

CYLLIDEB YR HEDDLU 2018-2019 Ble mae eich arian yn mynd?
POLICE BUDGET 2018-2019 Where does your money go?

	2017-18 £'000	2018-19 £'000	Fesul/per Band D*
GWARIANT / EXPENDITURE			£
Cyflogau - Swyddogion Heddlu Pay - Police Officers	73,921	75,071	259.26
Cyflogau - Staff yr Heddlu Pay - Police Staff	41,622	44,115	152.36
Pensiynau Pensions	3,164	3,227	11.14
Costau Eraill Gweithwyr Other Employee Costs	5,472	5,308	18.33
Costau Rhedeg Eraill Other Running Costs	34,260	34,059	117.63
Cyfraniad i Wariant Cyfalaf Contribution to Capital Expenditure	1,864	1,864	6.44
Gwariant Refeniw Gros Gross Revenue Expenditure	160,303	163,644	565.16
Llai Incwm Less Income	17,086	17,177	59.32
Gofynion y Gyllideb Budget Requirement	**143,217**	**146,467**	**505.84**
ARIENNIR DRWY / FINANCED BY:			
Grant Penodol yr Heddlu Specific Police Grant	40,025	40,025	138.23
Grant Llawr Floor Grant	9,796	9,581	33.09
Grant Cymorth Refeniw Revenue Support Grant	10,017	10,364	35.79
Cyfran o Drethi Annomestig Share of Non-Domestic Rates	11,890	11,758	40.61
	71,728	**71,728**	**247.72**
Treth y Cyngor Council Tax	71,489	74,739	258.12
Cyfanswm y Cyllid Total Finance	**143,217**	**146,467**	**505.84**

Cyllideb Gyfalaf y Comisiynydd 2018-2019

Gwariant Arfaethedig	**£'000**
Cerbydau ac Offer	1,573
Gwaith Adeiladu	3,636
Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	1,053
	6,262
Dull o Ariannu	**£'000**
Grantiau Cyfalaf	462
Benthyca	744
Derbynebau Cyfalaf	2,843
Cyfraniad Refeniw a Balansau	2,213
	6,262

The Commissioner's Capital Budget 2018-2019

Proposed Expenditure	**£'000**
Vehicles and Equipment	1,573
Building Works	3,636
Information Technology and Communication Equipment	1,053
	6,262
Method of Financing	**£'000**
Capital Grants	462
Borrowing	744
Capital Receipts	2,843
Revenue Contribution and Balances	2,213
	6,262

Faint o'ch arian treth cyngor sy'n cael ei wario ar blismona?

Mae naw band treth y cyngor yng Ngogledd Cymru, sydd wedi'u seilio ar werth cyfalaf yr eiddo yn 2003.

*Band D yw'r dull Cenedlaethol o gymharu lefelau treth. Dim ond £258.12 o fil treth cyngor Band D sy'n cael ei glustnodi ar gyfer ariannu gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Cymru, fel y cytunwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Felly, yn dibynnu ar fand eich eiddo chi, dyma faint o'ch bil Treth Cyngor fydd yn cael ei roi tuag at Wasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Cymru:

How much of your council tax is spent on policing?

There are nine council tax bands in North Wales, based on the capital value of the property in 2003.

*Band D is used for National comparisons of tax levels. From a Band D Council Tax bill, only £258.12 is allocated to funding the Police service of North Wales, as agreed by the Police and Crime Commissioner for North Wales.

Therefore, depending on your property band, the amount from your Council tax bill which funds the Police Service of North Wales is as follows:

BAND A	£172.08	**BAND B**	£200.76	**BAND C**	£229.44	**BAND D**	£258.12	**BAND E**	£315.48
BAND F	£372.84	**BAND G**	£430.20	**BAND H**	£516.24	**BAND I**	£602.28		

Cymharu lefel y Gyllideb Refeniw â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Gan ddefnyddio fformiwla a luniwyd ar gyfer pob Heddlu yng Nghymru a Lloegr, mae Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref wedi cyflwyno "safon gwariant" a elwir yn Asesiad Gwariant Safonol (AGS) a Grant yr Heddlu o £123.381m ar gyfer 2018-2019. Dyma yw asesiad y Llywodraeth o'r hyn y bydd angen i'r Comisiynydd ei wario er mwyn darparu'r un lefel o wasanaeth â'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill yng Nghymru os ydynt hwythau hefyd yn gwario yn unol â chyfanswm eu AGS a'u Grant Heddlu eu hunain.

Mae gan y Comisiynydd hawl i wario mwy na chyfanswm yr AGS a'r Grant Heddlu, gyda'r gwahaniaeth yn cael ei ariannu gan Dreth y Cyngor neu o'r Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu ar ofyniad Cyllideb o £146,467m.

Comparison of the level of the Revenue Budget with the Welsh Government's guidance

Using a formula developed for all Police Forces in England and Wales, the Welsh Government (WG) and the Home Office have issued the Commissioner with a "spending norm" known as the Standard Spending Assessment (SSA) plus Police Grant of £123.381m for 2018-2019. This is the Government's assessment of the Commissioner's need to spend in order to provide the same level of service as other Police and Crime Commissioners in Wales if they also spend at the level of their own SSA plus Police grant.

The Commissioner is allowed to spend in excess of its SSA/Police grant total, with the excess being funded from the Council Tax or Reserves. The Commissioner has set a Budget requirement of £146,467m.

1. O le mae'r arian yn dod? 2. Beth ydych yn ei gael am eich arian?

1.



1. Where does the money come from? 2. What do you get for your money?

2.



Amcangyfrif o gronfeydd ariannol y Comisiynydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol
The Commissioner's estimated financial reserves at the end of the financial year

2017-2018	2018-2019
£23.544 miliwn / million	£20.866 miliwn / million

Lle allwch chi gael mwy o fanylion?

Cysylltwch â:
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn: 01492 805486
E-bost: OPCC@nthwales.pnn.police.uk

Where can you get more details?

Please contact:
Office of the Police & Crime Commissioner North Wales
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Tel: 01492 805486
Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk